



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

49/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

15/07/2021

# Newid Hinsawdd a Chyrraedd Sero-Net: Canfyddiadau ac Ymwybyddiaeth yng Nghymru

Newid Hinsawdd a Chyrraedd Sero-Net: Canfyddiadau ac  
Ymwybyddiaeth yng Nghymru  
Awdur: Lucy Campbell

Adroddiad Ymchwil Llawn: Campbell, Lucy (2021). *Newid Hinsawdd a Chyrraedd Sero-Net: Canfyddiadau ac Ymwybyddiaeth yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 49/2021.  
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/newid-hinsawdd-chyrraedd-sero-net-canfyddiadau-ac-ymwybyddiaeth-yng-nghymru>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

E-bost: [YmchwilDyfodolCynaliadwy@llyw.cymru](mailto:YmchwilDyfodolCynaliadwy@llyw.cymru)

## Tabl cynnwys

|                                                                                  |    |
|----------------------------------------------------------------------------------|----|
| Rhestr o'r tablau.....                                                           | 2  |
| Rhestr o'r ffigurau .....                                                        | 3  |
| Geirfa 4                                                                         |    |
| 1. Cyflwyniad/Cefndir .....                                                      | 5  |
| 2. Methodoleg .....                                                              | 7  |
| 3. Canfyddiadau .....                                                            | 8  |
| Pryder a Chanfyddiadau am Newid Hinsawdd.....                                    | 8  |
| Gwybodaeth am Sero-Net a Chefnogaeth iddo .....                                  | 11 |
| Canfyddiadau ynghylch Newidiadau a Thechnolegau Lleihau Carbon .....             | 13 |
| Tebygolrwydd a Chanfyddiadau ynghylch Newidiadau i Ffordd o Fyw .....            | 16 |
| Canfyddiadau am y Dyfodol .....                                                  | 21 |
| Canfyddiadau o Gyfrifoldeb, Ymgysylltiad y Cyhoedd a Chynulliadau Hinsawdd ..... | 23 |
| 4. Casgliadau .....                                                              | 26 |
| Atodiad A- Demograffeg .....                                                     | 28 |
| Atodiad B: Arolwg .....                                                          | 30 |

## **Rhestr o'r tablau**

|                                                                                                               |    |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Tabl 3.1 Disgrifiadau a roddwyd i ymatebwyr am wahanol sectorau.....                                          | 11 |
| Tabl 3:2 Disgrifiadau a roddwyd i ymatebwyr am wahanol newidiadau .....                                       | 15 |
| Tabl 3.3 Disgrifiadau a roddwyd i ymatebwyr am ddau opsiwn technoleg posibl.....                              | 15 |
| Tabl 3.4: Disgrifiadau a roddwyd i ymatebwyr am newidiadau cymdeithasol posibl dros y<br>degawdau nesaf ..... | 18 |

## Rhestr o'r ffigurau

|                                                                                                                                                      |    |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Ffigur 3.1: Pryder am newid yn yr hinsawdd (n=1149).....                                                                                             | 9  |
| Ffigur 3.2: Canfyddiad o'r graddau y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ardal leol ymatebwyr, y DU a gwledydd eraill (n=1149).....             | 10 |
| Ffigur 3.3: Canfyddiadau o gyfraniadau sectorau at allyriadau carbon yn y DU (n=1149) ..                                                             | 11 |
| Ffigur 3.4: Gwybodaeth am Sero-Net (n=1149).....                                                                                                     | 12 |
| Ffigur 3.5: Cefnogaeth i dargedau Sero-Net Llywodraeth Cymru a'r DU (n=1149).....                                                                    | 13 |
| Ffigur 3.6 Cefnogaeth i newidiadau i leihau allyriadau carbon ar draws cymdeithas (n=1149) .....                                                     | 14 |
| Ffigur 3.7: Tebygolrwydd canfyddedig o weithredu carbon isel dros y degawdau nesaf (n=1149).....                                                     | 17 |
| Ffigur 3.8: Tebygolrwydd y bydd ymatebwyr yn newid rhai mathau o ymddygiad yn eu bywydau eu hunain (n= 1149).....                                    | 19 |
| Ffigur 3.9: Tebygolrwydd o newid ffordd o fyw o fewn y chwe mis nesaf (n=1149) .....                                                                 | 20 |
| Ffigur 3.10: Effaith Ganfyddedig Dyfodol Sero-Net ar Lesiant, Iechyd a'r Economi (n=1149) .....                                                      | 21 |
| Ffigur 3.11: Canfyddiadau o'r graddau y mae angen newid ffordd o fyw a thechnoleg er mwyn cyrraedd Sero-Net (n=1149) .....                           | 22 |
| Ffigur 3.12: Cyfrifoldeb canfyddedig y cyhoedd, diwydiant a'r llywodraeth o ran lleihau allyriadau carbon a chyrraedd Sero-Net yn y DU (n=1149)..... | 23 |
| Ffigur 3.13: Gwybodaeth am Gynulliad Hinsawdd y DU (n=1149).....                                                                                     | 25 |

## Geirfa

### Acronym/Gair allweddol

### Diffiniad

Sero-Net

Y DU yw'r economi fawr gyntaf yn y byd i basio cyfreithiau i roi terfyn ar ei chyfraniad at gynhesu byd-eang erbyn 2050. Mae'r targed yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU ostwng yr holl allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero-net erbyn 2050, o'i gymharu â'r targed blaenorol o ostyngiad o 80% o leiaf o lefelau 1990. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2045 ac mae Llywodraeth Cymru wedi datgan uchelgais i gyrraedd sero-net erbyn 2050 gydag ymrwymiad i ostyngiad o 95% mewn allyriadau yn y cyfnod hwnnw.

Mae sero-net yn golygu y byddai unrhyw allyriadau'n cael eu cydbwysu gan gynlluniau i wrthbwysu swm cyfatebol o nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer, megis plannu coed neu ddefnyddio technoleg fel dal a storio carbon.

Cyllideb Garbon

Mae cyllideb garbon yn gosod cyfyngiad ar gyfanswm y nwyon tŷ gwydr y gall Cymru eu gollwng dros gyfnod o bum mlynedd.

Cynulliad Hinsawdd

Yng ngwanwyn 2020, trefnodd Senedd y DU Gynulliad Hinsawdd y DU. Daeth cant o aelodau'r cyhoedd a ddewiswyd ar hap o bob rhan o'r DU at ei gilydd dros chwe phenwythnos i drafod yr hyn y dylai'r DU ei wneud i leihau allyriadau carbon i sero-net erbyn 2050.

CCC

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Diben y Pwyllgor yw cynghori llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar dargedau allyriadau ac adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pharatoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.

Defra

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

BEIS

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

## 1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun datgarboneiddio statudol cyntaf ar draws y Llywodraeth, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel<sup>1</sup>. Mae'n cyflwyno cant o bolisiâu a chynigion, ar draws pob sector, i fodloni'r gyllideb garbon gyntaf a phennu llwybr datgarboneiddio tymor hwy i Gymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith cyfreithiol i integreiddio datgarboneiddio ym mhob polisi gan sicrhau cydweithio a chynnwys rhanddeiliaid.
- 1.2 Ym mis Ebrill 2019, Llywodraeth Cymru oedd un o'r rhai cyntaf yn y byd i ddatgan Argyfwng Hinsawdd<sup>2</sup>. Y nod oedd sbarduno ton o weithredu gan gymunedau, busnesau a sefydliadau yng Nghymru, a allai arwain at fwy o weithredu'n rhyngwladol.
- 1.3 Ym mis Mai 2019, argymhellodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) y dylai'r DU geisio cyrraedd sero-net erbyn 2050<sup>3</sup> ac i Gymru fabwysiadu targed o 95% ar allyriadau carbon fel rhan o hyn. Yn dilyn hyn, deddfwyd targed Sero-Net 2050 gan Senedd y DU. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y CCC hefyd i Gymru gael uchelgais i gyrraedd Sero-Net<sup>4</sup>. Mae'n werth nodi, ar ôl i'r gwaith ymchwil gael ei gynnal, ym mis Rhagfyr 2020, fod y CCC wedi diweddarau ei gyngor yn seiliedig ar dystiolaeth a dadansoddiad pellach i Gymru fabwysiadu ymrwymiad i darged Sero-Net erbyn 2050. Yna mabwysiadodd Senedd Cymru y targed hwn mewn Rheoliadau ym mis Chwefror 2021<sup>5</sup>.
- 1.4 Er mwyn cyrraedd targedau o ran lleihau allyriadau carbon, dywed cyngor y CCC i Gymru ar gyfer bod yn Sero-Net fod angen i newidiadau ddigwydd yn ymddygiad defnyddwyr. Yn bennaf mae hyn yn golygu mabwysiadu technolegau carbon isel newydd (e.e. gyrru car trydan neu osod pwmp gwres), ond hefyd newid yn

---

<sup>1</sup> Ffyniant i Bawb: [Cymru carbon isel](#) | [LLYW.CYMRU](#)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd | [LLYW.CYMRU](#)

<sup>3</sup> [Cyngor y CCC \(2019\) Uk Net Zero](#)

<sup>4</sup> [Datganiad Ysgrifenedig: Cyngor y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd ar ein targed allyriadau hirdymor \(2 Mai 2019\)](#) | [LLYW.CYMRU](#)

<sup>5</sup> [Datganiad Ysgrifenedig: Llwybr Cymru i gyrraedd allyriadau sero-net \(9 Chwefror 2021\)](#) | [LLYW.CYMRU](#)

newisiadau defnyddwyr o ddydd i ddydd fel deietau gwyrddach a llai o alw am hedfan<sup>6</sup>. Mae hyn yn dangos yr angen i ddeall agweddau cymdeithasol Sero-Net er mwyn bodloni ymrwymïadau eraill Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, yn ogystal ag ymrwymïadau gan weinyddiaethau eraill ledled y DU.

- 1.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraethau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth, agweddau a dewisiadau'r cyhoedd tuag at wahanol lwybrau Sero-Net, a'r newid cymdeithasol sydd ei angen i gyrraedd Sero-Net yn y DU. Fel rhan o hyn, cynlluniodd a gweinyddodd Defra arolwg yn canolbwyntio ar ddimensiynau cymdeithasol Sero-Net, gyda mewnbwn gan bob gweinyddiaeth ddatganoledig, gan gynnwys y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) yn Llywodraeth Cymru. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Defra i gynyddu'r sampl Gymreig ar yr arolwg DU gyfan er mwyn creu sampl sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru. Casglwyd y data ym mis Medi a mis Hydref 2020.
- 1.6 Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau data'r arolwg a ddadansoddwyd o'r sampl Gymreig a gwblhawyd yn fewnol o fewn KAS. Defnyddir data sampl ar lefel y DU ar gyfer cymariaethau yn unig.

---

<sup>6</sup> [Y Adroddiad Cyngor \(CCC\): Llwybr i Gymru Sero-Net](#) (tudalen 145)

## **2. Methodoleg**

- 2.1 Rhwng mis Medi a mis Hydref 2020 cynhaliwyd arolwg ar-lein mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a Sero-Net, gan ddefnyddio Qualtrics, darparwr plattfform yr arolwg. Roedd y sampl yn cynnwys 6,947 o aelodau'r cyhoedd yn y DU, 18 oed a throsodd. Gweinyddwyd yr arolwg i oedolion yn y DU ar banel o bobl a oedd wedi cytuno'n flaenorol i gymryd rhan mewn ymchwil gymdeithasol, ac a gafodd eu talu am eu hamser. Defnyddiodd yr arolwg ddull samplu cwota gyda chwotâu wedi'u pennu i fod yn gynrychioliadol o oedran, rhywedd, rhanbarth, ethnigrwydd a gradd gymdeithasol yng Nghymru.
- 2.2 Sampl sylfaenol y DU oedd 4,656 o gyfranogwyr. Yn dilyn samplau wedi'u cynyddu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, cyfanswm y sampl a ddeilliodd o hynny oedd 6,947 (sy'n cynnwys sampl 4656 y DU). Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar y sampl Cymreig mwy heb ei bwysoli'n unig (1,149 o ymatebwyr), ac eithrio lle gwneir cymariaethau â'r DU gyfan. Mae adroddiad gan BEIS yn crynhoi canfyddiadau a thablau data'r DU sy'n dangos canlyniadau'r holl weinyddiaethau datganoledig i'w weld yma.
- 2.3 Ymatebodd 1,149 o drigolion Cymru i'r arolwg hwn. Roedd 61% (n=698) o'r sampl Cymreig yn fenywod a 39% (n=449) yn ddynion. Roedd 34% o'r sampl Cymreig yn 18-34 oed, 36% yn 35-54 oed a 31% yn 55-65+ oed. Mae rhagor o fanylion am wybodaeth ddemograffig yn Atodiad A. Gan fod y ddemograffeg yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn fras, ni chafodd unrhyw bwysoliad ei gymhwyso i'r data.
- 2.4 Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae copi o'r arolwg yn Atodiad B.
- 2.5 Defnyddiwyd meddalwedd SPSS i ddadansoddi'r data ar gyfer ystadegau disgrifiadol (h.y. canrannau). Mewn manau lle nad yw'r canrannau'n cyfateb i 100 yn y ffigurau, y rheswm am hyn yw bod rhai categorïau (e.e. ddim yn gwybod, mae'n well gen i beidio â dweud) wedi'u heithrio o siartiau oherwydd lle neu eglurder. Drwy gydol yr adroddiad dangosir y cyfansymiau cyfunol ar gyfer atebion tebyg weithiau. Er enghraifft, mae'r ymatebwyr y nodwyd eu bod yn "cytuno" â

datganiad yn cynrychioli'r cyfuniad o'r rhai a atebodd "cytuno'n gryf" a "chytuno i raddau".

### **Cafeatau:**

- 2.6 Un o gyfyngiadau'r gwaith ymchwil hwn yw cynrychioldeb. Dim ond ar-lein yr oedd yr arolwg hwn ar gael ac nid oedd fersiynau post ar gael, gan arwain at duedd bosibl yn y sampl tuag at y rhai a oedd yn gallu ymgysylltu'n ddigidol.
- 2.7 Gallai fod elfen o duedd dymunoldeb cymdeithasol hefyd, yn deillio o ofyn i ymatebwyr am eu hymddygiad eu hunain sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd. At hynny, wrth ddehongli canfyddiadau'r arolwg hwn, dylid nodi mai dim ond agweddau a bwriadau a aseswyd gan yr ymchwil ac felly efallai na fydd ymddygiad gwirioneddol yn y dyfodol yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn yn gywir.
- 2.8 Dylid nodi hefyd na all ymchwil feintiol fel yr arolwg hwn roi rhesymau y tu ôl i agweddau a bwriadau ymatebwyr.

## **3. Canfyddiadau**

### **Pryder a Chanfyddiadau am Newid Hinsawdd**


- 3.1 Fel y dengys Ffigur 3.1, mae dros 8 o bob 10 ymatebydd yn eithaf pryderus o leiaf am y newid presennol yn yr hinsawdd, gyda 37% yn bryderus iawn. Dim ond lleiafrif o ymatebwyr (13%) sydd ddim yn pryderu am y newid presennol yn yr hinsawdd mewn rhyw ffordd.
- 3.2 Mae'r lefel o bryder yn gyson gyda'r darganfyddiadau o'r Arolwg Cenedlaethol Cymru, atebodd 79% o bobl fod nhw'n weddol neu'n bryderus iawn am newid hinsawdd yn Mai 2020<sup>7</sup>. Mae'r lefel hon o bryder yn debyg iawn i farn y DU gyfan ac mae hefyd yn ategu canfyddiadau traciwr Agweddau Cyhoeddus BEIS<sup>8</sup> lle'r oedd 81% yn pryderu am newid yn yr hinsawdd ym mis Mehefin 2020 (ton 34).

---

<sup>7</sup> [Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU](#)


<sup>8</sup> [Traciwr Agweddau Cyhoeddus BEIS: Wave 34 - GOV.UK](#)

**Ffigur 3.1: Pryder am newid hinsawdd (n=1149)**



3.3 Fel y dengys Ffigur 3.2, roedd ymatebwyr yn credu bod newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n fawr ar wledydd eraill yn fwy na'r DU neu eu hardal leol. Er enghraifft, mae dros 40% o ymatebwyr yn credu bod newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n fawr ar wledydd eraill o gymharu â 22% yn meddwl hyn am y DU a 15% yn meddwl hyn am eu hardal leol. Serch hynny, mae dros 4 o bob 10 ymatebydd yn credu bod newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob un o'r tair ardal i ryw raddau, gyda dros hanner yr ymatebwyr (55%) yn credu hyn am y DU. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r data ar lefel y DU.


**Ffigur 3.2: Canfyddiad o'r graddau y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ardal leol ymatebwyr, y DU a gwledydd eraill (n=1149)**



3.4 Yna cyflwynwyd rhestr o wahanol sectorau i ymatebwyr, a gofynnwyd iddynt ddewis i ba raddau y credant y mae pob sector yn cyfrannu at allyriadau carbon. O'r sectorau a restrwyd, ystyriwyd bod trafnidiaeth yn cyfrannu llawer neu gryn dipyn at allyriadau carbon gan y ganran uchaf o ymatebwyr (82%), a'r ganran isaf yn ystyried bod hynny'n wir am amaethyddiaeth, ac eto roedd hyn yn dal i fod yn fwy na hanner (55%). At hynny, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod pob sector yn cyfrannu at allyriadau carbon y DU i ryw raddau o leiaf, gyda dim ond lleiafrif bach (o dan 10%) o ymatebwyr yn dewis 'Dim o gwbl'. Roedd hyn yn debyg yn y canfyddiadau ar lefel y DU.

3.5 Nid oedd yn bosibl penderfynu sut mae'r canfyddiadau hyn yn cymharu'n uniongyrchol â'r allyriadau carbon amcangyfrifedig gwirioneddol oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y caiff sectorau eu categorio mewn adroddiadau ffurfiol.

**Ffigur 3.3: Canfyddiadau o gyfraniadau sectorau at allyriadau carbon yn y DU (n=1149)**



**Tabl 3.1 Disgrifiadau a roddwyd i ymatebwyr am wahanol sectorau**

**Trafnidiaeth** (e.e. ceir, faniau, trenau, awyrennau, llongau)

**Gwresogi ac oeri** cartrefi ac adeiladau masnachol

**Defnydd o drydan** mewn cartrefi ac adeiladau masnachol (e.e. goleuadau)

**Diwydiannau** sy'n gweithgynhyrchu a chynhyrchu nwyddau

**Amaethyddiaeth** (e.e. cnydau, da byw, peiriannau fferm)


**Gwaredu gwastraff** (e.e. gwastraff bwyd, gwastraff masnachol a gwastraff cartref)

## Gwybodaeth am Sero-Net a Chefnogaeth iddo

3.6 Roedd mwyafrif (84%) yr ymatebwyr wedi clywed am y cysyniad Sero-Net o'r blaen o leiaf. O'r ymatebwyr hynny, roedd 57% yn gwybod ychydig neu rywfaint a dim ond 8% a oedd yn gwybod llawer amdano. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr heb glywed am Sero-Net o'r blaen (16%) nac oedd yn gwybod llawer amdano (8%).

3.7 Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i'r data ar lefel y DU. Mae'r lefel hon o ymwybyddiaeth yn sylweddol uwch na Thon 34 o Draciwr Agweddau Cyhoeddus BEIS<sup>9</sup> (Mehefin 2020) lle mai dim ond 63% a oedd wedi clywed am y cysyniad Sero-Net o'r blaen.

**Ffigur 3.4: Gwybodaeth am Sero-Net (n=1149)**



3.8 Rhoddodd yr arolwg ddatganiad byr i ymatebwyr yn egluro beth yw Sero-Net ac yna gofynnodd iddynt a oeddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r targed o gyrraedd Sero-Net erbyn 2050. Rhoddwyd cwestiwn ychwanegol i ymatebwyr Cymru hefyd ynghylch a oeddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu ymrwymiad Sero-Net Llywodraeth Cymru o ostyngiad o 95% mewn allyriadau carbon erbyn 2050, gydag uchelgais i gyrraedd Sero-Net erbyn 2050<sup>10</sup>. Rhoddwyd gwybodaeth iddynt yn egluro manylion y targed hwn hefyd. Roedd cefnogaeth fawr i darged Sero-Net y DU ymhlith sampl Cymru (gweler Ffigur 3.4); Roedd 80% yn cefnogi'r targed yn gryf neu i raddau a dim ond 4% a oedd yn gwrthwynebu. Mae hyn yn debyg i ddata ar


<sup>9</sup> Traciwr Agweddau Cyhoeddus: Wave 34 - GOV.UK

<sup>10</sup> Dyma'r polisi ar adeg yr arolwg – gweler y [Datganiad Ysgrifenedig: Cyngor y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd ar ein targed allyriadau hirdymor \(2 Mai 2019\) | LLYW.CYMRU](#)

lefel y DU lle'r oedd 78% yn cefnogi'r targed i raddau o leiaf. O'r 4% (n=80) a oedd yn gwrthwynebu'r targed, rhoddodd 25% (n=20) ymateb penagored i awgrymu pam. Roedd y rhesymau dros wrthwynebu'n amrywio ond yn cynnwys cost, diffyg gallu i'w gyflawni a'i fod yn ddibwrpas.

- 3.9 Roedd lefelau uchel o gefnogaeth i darged Llywodraeth Cymru hefyd ond roedd hyn yn is na tharged y DU ymhlith y sampl Cymreig; roedd 68% yn cefnogi'r targed a 7% yn gwrthwynebu.


**Ffigur 3.5: Cefnogaeth i dargedau Sero-Net Llywodraeth Cymru a'r DU (n=1149)**



## Canfyddiadau ynghylch Newidiadau a Thechnolegau Lleihau Carbon

- 3.10 Rhoddwyd rhestr o newidiadau posibl i gymdeithas i ymatebwyr y gellid eu gwneud i gyrraedd y targed Sero-Net a gofynnwyd iddynt ddweud a fyddent yn hoffi gweld y newid hwn. Ar draws y rhan fwyaf o'r newidiadau a restrwyd i gymdeithas, byddai dros 7 o bob 10 yn hoffi rhywfaint neu lawer o newid (gweler Ffigur 3.6). Lleihau gwastraff oedd â'r ganran uchaf (84%) o ymatebwyr (o ryw ychydig) a oedd am weld newid.
- 3.11 Mae deietau gwyrddach yn eithriad i hyn. Mae canran yr ymatebwyr a hoffai weld rhywfaint neu lawer o'r newid hwn yn gymharol isel (47%) ac ni fyddai tua chwarter (25%) yr ymatebwyr am weld dim neu fawr ddim o'r newid hwn.

**Ffigur 3.6 Cefnogaeth i newidiadau i leihau allyriadau carbon ar draws cymdeithas (n=1149)**



**Tabl 3:2 Disgrifiadau a roddwyd i ymatebwyr am wahanol newidiadau**

|                                                                                                                                   |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cyflenwad ynni gwyrddach</b> (e.e. llai o danwydd nwy a ffosil, mwy o ffermydd gwynt a phaneli solar)                          |
| <b>Gwell effeithlonrwydd ynni</b> (e.e. inswleiddio a lleihau'r defnydd o ynni mewn adeiladau)                                    |
| <b>Mwy o dechnoleg gwaredu nwyon tŷ gwydr</b> (e.e. datblygu technoleg sy'n gallu tynnu carbon o'r atmosffer)                     |
| <b>Defnydd tir mwy ecogyfeillgar</b> (e.e. plannu mwy o goed, defnyddio llai o dir ar gyfer anifeiliaid fferm)                    |
| <b>Deietau gwyrddach</b> (e.e. bwyta llai o gig a chynnyrch llaeth)                                                               |
| <b>Allyriadau trafnidiaeth is</b> (e.e. gyrru llai, defnyddio mwy o drafnidiaeth gyhoeddus, buddsoddi mewn cerbydau trydan)       |
| <b>Allyriadau is o wresogi</b> (e.e. newid i systemau gwresogi sy'n fwy ecogyfeillgar, defnyddio llai o aerdymheru)               |
| <b>Diwydiant gwyrddach</b> (e.e. prosesau gweithgynhyrchu sy'n fwy ecogyfeillgar)                                                 |
| <b>Defnyddio llai yn gyffredinol</b> (e.e. prynu llai o gynhyrchion newydd, a mwy o eitemau wedi'u hailgylchu ac eitemau ail-law) |
| <b>Lleihau gwastraff</b> (e.e. llai o wastraff bwyd, llai o ddeunydd pacio, mwy o ailgylchu)                                      |

- 3.12 Rhoddwyd disgrifiadau i ymatebwyr o ddau ddewis posibl a fyddai'n helpu cymdeithas i gyrraedd Sero-Net: technolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr a chyflenwadau ynni adnewyddadwy, a gofynnwyd pa mor gadarnhaol neu negyddol yr oeddent yn teimlo yn eu cylch. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r naill opsiwn a'r llall; roedd ychydig mwy o ymatebwyr yn gadarnhaol am gyflenwad ynni gwynt/niwclear (72%) na thechnolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr (67%).


**Tabl 3.3 Disgrifiadau a roddwyd i ymatebwyr am ddau opsiwn technoleg posibl**

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Technolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr:</b> Bydd y technolegau hyn yn ail-ddal nwyon tŷ gwydr sydd eisoes wedi'u gollwng o'r atmosffer. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r technolegau hyn a allai ddal canran uchel o allyriadau. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod a allwn ei ddatblygu'n ddigon cyflym i leihau allyriadau mewn pryd.             |
| <b>Cyflenwad ynni:</b> Daw bron pob ynni o ffynonellau adnewyddadwy neu garbon isel, ynni gwynt a niwclear yn bennaf. Mae hyn yn caniatáu i bobl ddefnyddio'r un faint o ynni yn y dyfodol ag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y byddai llawer mwy o ffermydd gwynt yn cael eu hadeiladu yng nghefn gwlad ac ar y môr. |

## **Tebygolrwydd a Chanfyddiadau ynghylch Newidiadau i Ffordd o Fyw**

- 3.13 Gofynnwyd i ymatebwyr pa mor debygol oeddent yn meddwl y byddai amrywiaeth o newidiadau i'w ffordd o fyw yn digwydd dros y degawdau nesaf (gweler Ffigur 3.7). Roedd canfyddiadau cymysg ynglŷn â'r tebygolrwydd y byddai newidiadau'n cael eu gweithredu yn ystod yr ychydig ddegawdau nesaf. Y newid y tybiwyd ei fod fwyaf tebygol o ddigwydd oedd effeithlonrwydd ynni (er enghraifft, gosod deunydd inswleiddio mewn tai); Roedd 67% o ymatebwyr o'r farn bod y newid hwn yn debygol i raddau neu'n debygol iawn o ddigwydd yn ystod y degawdau nesaf. Gwelwyd yr un peth ar lefel y DU.
- 3.14 Ystyriwyd mai lleihau faint o gig a chynnyrch llaeth a gaiff eu bwyta i'w hanner oedd y newid lleiaf tebygol o ddigwydd, gyda 44% o ymatebwyr yn dweud bod hynny'n debygol i raddau neu'n debygol iawn. Serch hynny, roedd hyn yn uwch na chanran yr ymatebwyr ledled y DU a ymatebodd yr un fath am fwyta cig (32% yn dweud bod newid yn debygol). Felly, mae ymatebwyr o Gymru'n meddwl bod lleihau faint o gig a gaiff ei fwyta'n fwy tebygol dros y degawdau nesaf o gymharu ag ymatebwyr y DU gyfan.
- 3.15 Roedd gan arferion prynu (e.e. prynu llai o eitemau a defnyddio eitemau am fwy o amser) ganrannau tebyg o ymatebwyr ar gyfer y ddau ar gyfer tebygol (37%) ac annhebygol (36%).
- 3.16 75% oedd canran gyfartalog yr ymatebwyr a ddywedodd yr hoffent weld newid ar draws y newidiadau a restrwyd i gymdeithas (Ffigur 3.6). 45% oedd canran gyfartalog yr ymatebwyr a ddywedodd fod newidiadau'n debygol o ddigwydd (Ffigur 3.7). Felly, ar gyfartaledd, byddai mwy o ymatebwyr yn hoffi gweld newidiadau'n digwydd nag sy'n meddwl bod newidiadau'n debygol o ddigwydd mewn gwirionedd.

**Ffigur 3.7: Tebygolrwydd canfyddedig o weithredu carbon isel dros y degawdau nesaf (n=1149)**



**Tabl 3.4: Disgrifiadau a roddwyd i ymatebwyr am newidiadau cymdeithasol posibl dros y degawdau nesaf**

**Deiet/Bwyd:** Mae pawb yn bwyta hanner cymaint o gig a chynnyrch llaeth ag y maent heddiw.

**Defnyddio Ynni:** Mae pobl yn defnyddio llawer llai o ynni yn y cartref (e.e. defnyddio llai o wres, diffodd offer, defnyddio llai o ddŵr poeth).

**Effeithlonrwydd Ynni:** Mae pobl yn gwneud eu cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni (e.e. inswleiddio yn yr atig, mewn waliau, ac o dan y llawr).

**Gwastraff Bwyd:** Mae gan bob cartref lefelau isel o wastraff bwyd (e.e. llai na 5% o'r bwyd y maent yn ei brynu).

**Arferion Prynu:** Mae pobl yn prynu llai o eitemau (e.e. dillad newydd) ac yn defnyddio'r rhain am fwy o amser, a byddant yn ceisio trwsio eitemau sy'n ganddynt cyn cael rhai newydd.

**Gwres:** Mae bron pob cartref yn y DU yn defnyddio bwyleri gwres carbon isel yn hytrach na bwyleri nwy neu olew.


**Hobiau coginio:** Nid yw pobl yn defnyddio hobiau coginio nwy mwyach, ac yn defnyddio hobiau trydan/anwythiad.

**Teithio:** Nid yw pobl yn defnyddio ceir petrol na diesel mwyach.

- 3.17 Gofynnwyd i ymatebwyr pa mor debygol oedd hi y byddent yn gwneud newidiadau i'w bywydau eu hunain. Roedd yr ymatebion i hyn yn gymysg. Mathau o ymddygiad sy'n gysylltiedig â gwresogi oedd y mathau o ymddygiad yr oedd ymatebwyr yn fwyaf tebygol o'u gwneud; dywedodd 53% eu bod yn debygol i raddau o leiaf o leihau tymheredd eu thermostat o gymharu â'r gaeaf diwethaf a dywedodd 50% yr un peth am ddefnyddio llai o wres.
- 3.18 Roedd pedwar o bob deg ymatebydd yn debygol i raddau o leiaf o osgoi awyrennau y tro nesaf y byddant yn mynd ar ylliau neu'n mynd i ffwrdd ar gyfer busnes (gweler Ffigur 3.8). Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19 a oedd ar waith adeg yr arolwg. Yn ogystal, roedd y tebygolrwydd o brynu car trydan a newid i dechnoleg gwresogi carbon isel yn isel; gyda dim ond traean o ymatebwyr yn dweud eu bod yn debygol o wneud y ddau. Ar draws y pum newid, 41% oedd y cyfartaledd ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn debygol o wneud y newidiadau hyn.

- 3.19 Mae canfyddiadau Cymru yn ategu canfyddiadau'r DU, ac eithrio'r tebygolrwydd y bydd prynu car trydan ychydig yn uwch ymhlith ymatebwyr y DU (35%) nag ymatebwyr Cymru (30%).

**Ffigur 3.8: Tebygolrwydd y bydd ymatebwyr yn newid rhai mathau o ymddygiad yn eu bywydau eu hunain (n= 1149)**




- 3.20 Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr pa mor debygol oedd hi y byddent yn gwneud amrywiaeth o newidiadau i'w bywydau o fewn y chwe mis nesaf. Fel y dangosir yn Ffigur 3.9, lleihau gwastraff bwyd oedd yr unig newid y dywedodd dros hanner (51%) yr ymatebwyr eu bod naill ai'n debygol i raddau neu'n debygol iawn o wneud a hefyd lle gwelwyd y ganran uchaf o ymatebwyr yn dweud eu bod 'eisoes yn gwneud hyn' (30%). Defnyddio darparwr ynni gwyrdd oedd â'r ganran uchaf ond un (43%) o ymatebwyr yn dweud eu bod yn debygol o wneud hyn, gyda dim ond 14% yn dweud y byddent yn annhebygol o wneud hyn.
- 3.21 Bwyta prydau bwyd seiliedig ar blanhigion ar gyfer y rhan fwyaf o brydau bwyd oedd y newid lleiaf tebygol o ddigwydd. Hwn oedd â'r ganran isaf o ymatebwyr a

ddywedodd eu bod yn debygol (28%) a'r ganran uchaf a ddywedodd eu bod yn annhebygol (40%) o wneud hyn. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg iawn i'r canfyddiadau ar lefel y DU.

- 3.22 Ar draws y pum newid i'w gwneud o fewn y chwe mis nesaf, 39% oedd y cyfartaledd ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn debygol o wneud y newidiadau hyn.
- 3.23 O'r rhai a oedd yn annhebygol o ddechrau cael prydau o fwyd seiliedig ar blanhigion o fewn y chwe mis nesaf, dim ond 16% a oedd yn meddwl nad oedd allyriadau amaethyddol yn cyfrannu llawer neu o gwbl at gyfanswm allyriadau carbon y DU. At hynny, roedd mwyafrif helaeth (77%) yr ymatebwyr hyn o'r farn bod allyriadau amaethyddol yn cyfrannu naill ai ychydig (29%), llawer (31%) neu lawer iawn (17%). Mae hyn yn dangos bod parodrwydd i fabwysiadu deietau gwyrddach yn debygol o gael ei ddylanwadu gan gydadwaith rhwng ffactorau gwahanol ac y gallai ymwybyddiaeth o allyriadau amaethyddol chwarae dim mwy na rhan fach yn hyn. Fodd bynnag, roedd sefydlu'r ffactorau hyn y tu allan i gwmpas y gwaith ymchwil hwn.


**Ffigur 3.9: Tebygolrwydd o newid ffordd o fyw o fewn y chwe mis nesaf (n=1149)**



## Canfyddiadau am y Dyfodol


- 3.24 Gofynnwyd i ymatebwyr feddwl am ddyfodol lle mae allyriadau carbon yn sylweddol is a ninnau wedi cyrraedd Sero-Net a beth fyddai hyn yn ei olygu i bobl. Mae o leiaf hanner yr ymatebwyr o'r farn bod dyfodol Sero-Net yn well ar gyfer llesiant, iechyd a'r economi (gweler Ffigur 3.10). Roedd yr effaith gadarnhaol ar lesiant ac iechyd yn fwyaf sicr ymhlith ymatebwyr (77% ac 80% yn ymateb 'gwell' yn y drefn honno). Roedd yr effaith ar yr economi'n llai sicr; gyda 51% yn ymateb 'gwell', ond ychydig o dan draean (28%) yn ymateb 'gwaeth' ac 20% yn ymateb 'gwaeth' neu 'Ddim yn gwybod' gyda'i gilydd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r data ar lefel y DU.

**Ffigur 3.10: Effaith Ganfyddedig Dyfodol Sero-Net ar Lesiant, Iechyd a'r Economi (n=1149)**



- 3.25 Gofynnwyd i ymatebwyr feddwl am y graddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau yn ymwneud â faint y byddai angen i'n bywydau newid er mwyn lleihau allyriadau carbon a chyrraedd Sero-Net. Roedd canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y bydd angen i'r ffordd rydym yn byw ein bywydau newid yn sylweddol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gryn dipyn yn uwch (83%) nag ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y bydd technoleg yn helpu i leihau'r rhan fwyaf o'n hallyriadau carbon (41%) (Gweler Ffigur 3.11). Efallai fod hyn yn dangos bod pobl yn ymwybodol o bwysigrwydd neu'r angen am newid ffordd o fyw.
- 3.26 Serch hynny, nid oedd traean o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno y byddai technoleg yn helpu i leihau'r rhan fwyaf o'n hallyriadau carbon. Efallai fod hyn yn dangos bod yr ymatebwyr hyn yn credu ei fod yn gyfuniad o dechnoleg a newid ffordd o fyw, er ei bod yn anodd dweud hyn yn bendant.


**Ffigur 3.11: Canfyddiadau o'r graddau y mae angen newid ffordd o fyw a thechnoleg er mwyn cyrraedd Sero-Net (n=1149)**



## Canfyddiadau o Gyfrifoldeb, Ymgysylltiad y Cyhoedd a Chynulliadau Hinsawdd

- 3.27 Roedd dros hanner yr holl ymatebwyr o'r farn bod gan y cyhoedd, busnesau a diwydiannau a'r llywodraeth i gyd lawer o gyfrifoldeb i leihau allyriadau carbon a chyrraedd Sero-Net; gyda dros 70% o ymatebwyr yn dweud bod gan fusnesau a diwydiant, a'r Llywodraeth lawer o gyfrifoldeb (gweler Ffigur 3.12).
- 3.28 Pan ofynnwyd pwy oedd *fwyaf* cyfrifol yn eu barn nhw, dywedodd 39% y Llywodraeth, dywedodd 33% busnesau a diwydiant, a dywedodd 18% y cyhoedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg iawn i farn ymatebwyr y DU yn gyffredinol.

**Ffigur 3.12: Cyfrifoldeb canfyddedig y cyhoedd, diwydiant a'r llywodraeth o ran lleihau allyriadau carbon a chyrraedd Sero-Net yn y DU (n=1149)**




### **Dewisiadau Gwneud Penderfyniadau**

- 3.29 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig cael gwybod am yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud o ran Sero-Net a chael mynegi barn am yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Barnwyd bod y ddau beth yn weddol neu'n eithriadol o bwysig gan 85% ac 87% o ymatebwyr yn y drefn honno. Roedd mwyafrif llai o ymatebwyr am gael eu holi am eu dymuniadau o ran sut rydym yn cyrraedd Sero-Net (63% 'ie', 15% 'na' a 22% 'ddim yn gwybod'). Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr am gael mynegi barn (o leiaf i ryw raddau) ar benderfyniadau a fyddai'n effeithio ar y wlad gyfan (75%) a'u cymuned leol (73%).

### **Ymwybyddiaeth a Chanfyddiad o Gynullïadau Hinsawdd**

- 3.30 Roedd y wybodaeth am Gynullïad Hinsawdd y DU yn gymysg. Roedd 64% o ymatebwyr naill ai ddim yn gwybod am Gynullïad Hinsawdd y DU neu'n gwybod fawr ddim amdano – gyda 42% heb glywed amdano erioed o'r blaen (gweler Ffigur 3.13). Roedd ychydig dros draean o ymatebwyr (32%) yn gwybod tipyn neu lawer amdano. Gwelwyd y lefel hon o ymwybyddiaeth ymhlith sampl y DU hefyd. Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd iddynt, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (60%) yn meddwl bod cynullïadau dinasyddion (fel y Cynullïad Hinsawdd) yn beth da, nid oedd traean yn gwybod a dim ond un o bob deg oedd yn credu nad oeddent yn beth da. Gwelwyd yr un peth ar gyfer y data ar lefel y DU.

**Ffigur 3.13: Gwybodaeth am Gynulliad Hinsawdd y DU (n=1149)**



## 4. Casgliadau

- 4.1 Roedd pryderon am newid yn yr hinsawdd yn uchel ymhlith ymatebwyr. Roedd dros 8 o bob 10 ymatebydd yn eithaf pryderus o leiaf am newid yn yr hinsawdd, gyda 37% yn bryderus iawn. Roedd ymatebwyr o'r farn bod newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar wledydd eraill yn fwy na'r DU a'u hardal leol.
- 4.2 Roedd trafndiaeth yn cael ei ystyried fel y cyfrannwr uchaf at allyriadau carbon o blith amrywiaeth o sectorau. Roedd 82% yn meddwl ei fod yn cyfrannu 'cryn dipyn' neu 'lawer' at allyriadau carbon, o gymharu â 55% o ymatebwyr a oedd yn meddwl yr un peth am allyriadau amaethyddol. Nid oedd cymariaethau uniongyrchol o'r canfyddiadau hyn ag allyriadau amcangyfrifedig gwirioneddol sectorau yn bosibl oherwydd categorieiddio sectorau mewn ffyrdd gwahanol.
- 4.3 Roedd mwyafrif (84%) yr ymatebwyr o leiaf wedi clywed am y cysyniad Sero-Net o'r blaen, ond dim ond lleiafrif (8%) a oedd yn gwybod llawer amdano. Roedd targedau Sero-Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael eu cefnogi gan ymatebwyr i raddau helaeth, gyda llai na 10% o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r naill darged neu'r llall. Mae hyn, ynghyd â'r lefel uchel o bryder am newid yn yr hinsawdd, yn dangos bod y cyhoedd yn cefnogi newidiadau i gyrraedd targedau.
- 4.4 Ystyriwyd mai mesurau effeithlonrwydd ynni oedd y newid mwyaf tebygol o ddigwydd dros y degawdau nesaf ac ystyriwyd mai haneru'r cig a'r cynnyrch llaeth a gaiff ei fwyta oedd leiaf tebygol.
- 4.5 O ran gwneud newidiadau i'w ffordd o fyw yn eu bywydau eu hunain, roedd barn ymatebwyr yn gymysg. Dywedodd tua hanner eu bod yn debygol o newid eu hymddygiad sy'n gysylltiedig â gwresogi o gymharu â'r gaeaf diwethaf a lleihau eu gwastraff bwyd. Serch hynny, dim ond traean a oedd yn debygol o brynu car trydan y tro nesaf y byddant yn prynu car neu'n newid i dechnoleg gwresogi carbon isel pan fyddant angen newid. Nid yw canfod pam yr oedd ymatebwyr yn llai neu'n fwy parod i fabwysiadu rhai mathau o ymddygiad o fewn cwrpas y gwaith ymchwil hwn. Gallai hyn fod o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth am effaith technolegau, neu oherwydd cost ariannol dybiedig. Gellid archwilio hyn mewn ymchwil ansoddol yn y dyfodol.

- 4.6 Edrychwyd yn lleiaf ffafriol ar newid i ddeiet gwyrddach ar draws y cwestiynau o gymharu â'r newidiadau eraill i ffordd o fyw. Roedd ymatebwyr yn lleiaf tebygol o ddweud yr hoffent weld newidiadau i ddeiet, ac ychydig o dan draean (28%) a oedd yn debygol o fwyta prydau bwyd seiliedig ar blanhigion ar gyfer y rhan fwyaf o'u prydau bwyd yn ystod y chwe mis nesaf. Nid oedd canfod y rhesymau dros hyn o fewn cwrmpas y gwaith ymchwil hwn, ond mae'n debygol o fod o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau.
- 4.7 Er yr hoffai ymatebwyr weld newidiadau lleihau carbon yn cael eu rhoi ar waith mewn cymdeithas, credai llai o ymatebwyr, ar gyfartaledd, fod y newidiadau cymdeithasol hyn yn debygol o ddigwydd dros y degawdau nesaf, yn enwedig yn eu bywydau beunyddiol eu hunain.
- 4.8 Ystyriwyd dyfodol Sero-Net yn gadarnhaol ar gyfer llesiant, iechyd a'r economi, er ychydig yn llai felly i'r economi. Roedd 84% yn cytuno bod angen i'r ffordd rydym yn byw ein bywydau newid yn sylweddol er mwyn lleihau allyriadau carbon a chyrraedd Sero-Net. Unwaith eto, mae hyn yn amlygu cefnogaeth y cyhoedd i newid ymddygiad er mwyn cyrraedd targedau Sero-Net.
- 4.9 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr am gael gwybod am yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud a chael cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Er nad oedd 42% wedi clywed am Gynulliad Hinsawdd y DU erioed o'r blaen, credai'r mwyafrif fod cynullïadau dinasyddion yn beth da. Mae hyn yn dangos bod lle i Gynullïadau Dinasyddion wneud penderfyniadau am newid yn yr hinsawdd.
- 4.10 Roedd canfyddiadau sampl Cymru yn gyson iawn ar y cyfan â chanfyddiadau'r DU gyfan, gan awgrymu mai prin yw'r gwahaniaethau mewn agweddau ymhlith y gweinyddiaethau datganoledig.

## Atodiad A- Demograffeg

**Tabl 1: Amrediad oedran yr ymatebwyr**

|  |                                 | Amllder | Canran |
|--|---------------------------------|---------|--------|
|  | 18-24                           | 142     | 12.4   |
|  | 25-34                           | 243     | 21.1   |
|  | 35-44                           | 210     | 18.3   |
|  | 45-54                           | 198     | 17.2   |
|  | 55-64                           | 218     | 19.0   |
|  | 65+                             | 135     | 11.7   |
|  | Mae'n well gen i beidio â dweud | N<5     |        |
|  | Cyfanswm                        | 1149    | 100.0  |

**Tabl 2: Grŵp ethnig ymatebwyr**

|  |                                               | Amllder | Canran |
|--|-----------------------------------------------|---------|--------|
|  | Gwyn Prydeinig                                | 1054    | 91.7   |
|  | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig                   | 25      | 2.2    |
|  | Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | 17      | 1.5    |
|  | Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig                   | 22      | 1.9    |
|  | Grwpiau Ethnig Eraill                         | 24      | 2.1    |
|  | Mae'n well gen i beidio â dweud               | 7       | .6     |
|  | Cyfanswm                                      | 1149    | 100.0  |

**Tabl 3: Rhywedd yr ymatebwyr**

|  |                                 | Amllder | Canran |
|--|---------------------------------|---------|--------|
|  | Benyw                           | 698     | 60.7   |
|  | Gwryw                           | 449     | 39.1   |
|  | Mae'n well gen i beidio â dweud | N<5     |        |
|  | Cyfanswm                        | 1149    | 100.0  |

**Tabl 4: Rhanbarth yr ymatebwyr**

|  |              | Amllder | Canran |
|--|--------------|---------|--------|
|  | Y Canolbarth | 62      | 5.4    |
|  | Y Gogledd    | 266     | 23.2   |
|  | Y De         | 712     | 62.0   |
|  | Y Gorllewin  | 109     | 9.5    |
|  | Cyfanswm     | 1149    | 100.0  |

**Tabl 5: Statws Cyflogaeth**

|  |                                             | Amllder | Canran |
|--|---------------------------------------------|---------|--------|
|  | Cyflogedig llawn amser (gan gynnwys ffyrlo) | 440     | 38.3   |
|  | Cyflogedig rhan-amser (gan gynnwys ffyrlo)  | 174     | 15.1   |
|  | Hunangyflogedig                             | 81      | 7.0    |
|  | Di-waith                                    | 194     | 16.9   |
|  | Wedi ymddeol                                | 178     | 15.5   |
|  | Myfyriwr                                    | 59      | 5.1    |
|  | Mae'n well gen i beidio â dweud             | 23      | 2.0    |
|  | Cyfanswm                                    | 1149    | 100.0  |

**Tabl 6: Incwm yr Aelwyd**

|  |                                 | Amllder | Canran |
|--|---------------------------------|---------|--------|
|  | Islaw £14,999                   | 217     | 18.9   |
|  | £15,000-£24,999                 | 255     | 22.2   |
|  | £25,000-£49,000                 | 416     | 36.2   |
|  | £50,000-£74,999                 | 116     | 10.1   |
|  | £75,000-£99,999                 | 30      | 2.6    |
|  | £100,000+                       | 29      | 2.5    |
|  | Mae'n well gen i beidio â dweud | 86      | 7.5    |
|  | Cyfanswm                        | 1149    | 100.0  |

## Atodiad B: Arolwg

# NZ Societal Change survey

---

Start of Block: DATA QUALITY CHECK - PLEASE DO NOT REMOVE

JS

RelevantID

---

RelevantID Timing

First Click (1)

Last Click (2)

Page Submit (3)

Click Count (4)

---

End of Block: DATA QUALITY CHECK - PLEASE DO NOT REMOVE

---

Start of Block: Intro

Q1 Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg hwn ar yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy nag 15 munud i'w gwblhau a bydd y casgliadau yn helpu hysbysu cynllunio ar gyfer y dyfodol a gwaith llunio polisi'r llywodraeth. Mae'r astudiaeth yn cael ei chyflawni ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Bydd eich cyfranogiad yn wirfoddol ac fe gedwir yr atebion yn gwbl gyfrinachol. Os na fyddwch chi'n gorffen yr arolwg, ni fydd eich canlyniadau'n cael eu cofnodi. Bydd yr wybodaeth a ddarparwch yn cael ei defnyddio gan ymchwilwyr llywodraethu'r Deyrnas Unedig, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Phrifysgol Caerdydd, i ddibenion ymchwil yn unig. Bydd Defra yn dinistrio unrhyw ddata yn ymwneud â'r arolwg hwn 3 blynedd wedi casglu'r data. I weld gwybodaeth bellach ar hyn, gweler yr hysbysiad preifatrwydd trwy ddilyn y ddolen isod.

### [Hysbysiad preifatrwydd](#)

Atebwch y cwestiynau mor gyflawn ac onest ag y gallwch. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael eich barn onest. Os cewch unrhyw drafferthion gyda'r arolwg hwn, anfonwch e-bost at: [behavioural.insights@defra.gov.uk](mailto:behavioural.insights@defra.gov.uk) Diolch i chi am gymryd amser i gwblhau'r holiadur pwysig hwn. Trwy glicio ar y saeth i'r dudalen nesaf, rydych chi'n cydsynio i gymryd rhan. Os hoffech gymryd yr arolwg hwn yn Saesneg, dewiswch yr opsiwn Saesneg o'r blwch dewislen yn y gornel dde.

## End of Block: Intro

---

### Start of Block: Country screener

Q2 Ble ydych chi'n byw'n barhaol?

- ☐ Gogledd Iwerddon (335)
- ☐ Yr Alban (336)
- ☐ Cymru (337)
- ☐ Dwyrain Canolbarth Lloegr (338)
- ☐ Dwyrain Lloegr (339)
- ☐ Llundain (340)
- ☐ Gogledd Ddwyrain Lloegr (341)
- ☐ Gogledd Orllewin Lloegr (342)
- ☐ De Ddwyrain Lloegr (343)
- ☐ De Orllewin Lloegr (344)
- ☐ Gorllewin Canolbarth Lloegr (345)
- ☐ Swydd Gaerefrog a'r Humber (346)
- ☐ Arall (348)

## End of Block: Country screener

---

### Start of Block: Quota questions

*Display This Question:*

*If Where do you permanently live? = Scotland*

Q52 Dewiswch y rhanbarth ble rydych chi'n preswyllo.

- ☐ Gororau'r Alban (1)
- ☐ Canolbarth yr Alban (2)
- ☐ Dumfries a Galloway (3)
- ☐ Grampian (4)
- ☐ Ucheldiroedd ac Ynysoedd (5)
- ☐ Lothian (6)
- ☐ Strathclyde (7)

---

*Display This Question:*

*If Where do you permanently live? = Wales*

Q53 Dewiswch y rhanbarth ble rydych chi'n preswyllo.

- ☐ Canolbarth Cymru (1)
- ☐ Gogledd Cymru (2)
- ☐ De Cymru (3)
- ☐ Gorllewin Cymru (4)

---

*Display This Question:*

*If Where do you permanently live? = Northern Ireland*

Q54 Dewiswch y rhanbarth ble rydych chi'n preswyllo.

- ☐ Antrim (1)
  - ☐ Armagh (2)
  - ☐ Derry / Londonderry (3)
  - ☐ Down (4)
  - ☐ Fermanagh (5)
  - ☐ Tyrone (6)
-

Q49 A ydych chi'n uniaethu fel:

- ☐ Benywaidd (1)
  - ☐ Gwrywaidd (2)
  - ☐ Arall (5)
  - ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (4)
- 

Q50 Dewiswch eich ystod oedran.

- ☐ Dan 18 (7)
  - ☐ 18-24 oed (1)
  - ☐ 25-34 oed (2)
  - ☐ 35-44 oed (3)
  - ☐ 45-54 oed (4)
  - ☐ 55-64 oed (5)
  - ☐ 65+ oed (6)
  - ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (9)
- 

Q57 Beth yw'ch grŵp ethnig?

- ☐ Gwyn Prydeinig (1139)
  - ☐ Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (1140)
  - ☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd Prydeinig (1141)
  - ☐ Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog (1142)
  - ☐ Grwpiau Ethnig Eraill (1143)
  - ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (1144)
-

Q62 Dynodwch i ba grŵp galwedigaethol mae'r Prif Enillydd Incwm (y sawl sydd â'r incwm mwyaf) yn eich aelwyd yn perthyn, neu pa grŵp sy'n gweddu orau.

- ☐ Uwch reoli, gweinyddol a phroffesiynol (244)
- ☐ Rheoli, gweinyddol a phroffesiynol canolradd (245)
- ☐ Goruchwyliol, clerigol ac is-reoli, gweinyddol a phroffesiynol (246)
- ☐ Gweithiwr llafur crefftus (247)
- ☐ Gweithiwr llafur lled grefftus (248)
- ☐ Gweithiwr llafur heb sgiliau (249)
- ☐ Pensiynwyr y wladwriaeth (250)
- ☐ Gweithiwr dros dro (251)
- ☐ Di-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth (252)
- ☐ Arall/Amherthnasol (253)
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (254)

End of Block: Quota questions

---

Start of Block: Perceptions of the importance of addressing CC and achieving NZ

Q3 Faint ydych chi'n poeni, os o gwbl, ynghylch y newid yn yr hinsawdd bresennol, a elwir weithiau yn 'gynhesu byd eang'?

- ☐ Pryderus iawn (1)
- ☐ Gweddol bryderus (2)
- ☐ Ddim yn bryderus iawn (3)
- ☐ Ddim yn bryderus o gwbl (4)
- ☐ Dwi ddim yn gwybod (5)
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (6)

---

Page Break

Q5 Faint, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl **mewn gwledydd eraill** ar hyn o bryd?

- ☐ Cryn dipyn (1)
  - ☐ Ychydig (2)
  - ☐ Ddim llawer (3)
  - ☐ Ddim o gwbl (4)
  - ☐ Dwi ddim yn gwybod (5)
  - ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (6)
- 

Q6 Faint, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl **yn y Deyrnas Unedig** ar hyn o bryd?

- ☐ Cryn dipyn (1)
  - ☐ Ychydig (2)
  - ☐ Ddim llawer (3)
  - ☐ Ddim o gwbl (4)
  - ☐ Dwi ddim yn gwybod (5)
  - ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (6)
- 

Q7 A faint, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar **eich ardal chi** ar hyn o bryd?

- ☐ Cryn dipyn (1)
  - ☐ Ychydig (2)
  - ☐ Ddim llawer (3)
  - ☐ Ddim o gwbl (4)
  - ☐ Dwi ddim yn gwybod (5)
  - ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (6)
-

Q8 Pa mor ddifrifol ydych chi'n meddwl fydd effaith newid yn yr hinsawdd **arnoch chi a'ch teulu chi?**

- ☐ Hynod ddifrifol (73)
- ☐ Difrifol iawn (74)
- ☐ Eithaf difrifol (75)
- ☐ Ddim yn ddifrifol iawn (76)
- ☐ Ddim yn ddifrifol o gwbl (77)
- ☐ Dwi ddim yn gwybod (78)
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (79)

---

Page Break

Q9 Mae nifer o lywodraethau a chwmnïau ledled y byd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, yn ymroi i gyflawni 'sero-net'. Cyn heddiw, faint, os o gwbl, oeddech chi'n ei wybod am y cysyniad hwn?

- ☐ Llawer (65)
- ☐ Dipyn go lew (66)
- ☐ Ychydig (67)
- ☐ Fawr ddim, ond dwi wedi clywed amdano (68)
- ☐ Heb glywed am hyn cyn heddiw (69)
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud (70)

---

Page Break

Q10 Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gosod targed i leihau allyriadau carbon y Deyrnas Unedig i 'sero-net' erbyn 2050. Trwy gyflawni allyriadau 'sero-net', ni fydd y Deyrnas Unedig bellach yn cyfrannu i newid yn yr hinsawdd.

